

# Cylchlythyr Gorffennaf



Dyma ni wedi cyrraedd diwedd flwyddyn academiaidd wych arall yn Ysgol Llanrhaeadr Ym Mochnant. Wrth edrych yn ôl, mae'n arbennig meddwl faint sydd wedi cael ei gyflawni mewn 11 mis. Mae staff wedi gweithio'n galed iawn, mae rhieni a llywodraethwyr wedi bod yn gefnogol iawn ac wrth gwrs mae'r disgyblion wedi bod yn arbennig!

Ond cyn i ni fyfyrion am y flwyddyn, mae'n rhaid i ni edrych ar yr holl bethau sydd wedi digwydd dros y 3 wythnos diwethaf.

Rydym wedi cael nifer o ddiwrnodau **pontio** llwyddiannus gyda blwyddyn 1, blwyddyn 6 a disgyblion derbyn mis Medi. Mae'r disgyblion newydd wedi cael dau fore ac un diwrnod llawn i gael dod i arfer gyda bywyd ysgol. Edrychwn ymlaen at eu croesawu yma ym mis Medi. Mae blwyddyn 6 wedi mwynhau eu hamser yn yr ysgol uwchradd, gan dreulio 2 ddiwrnod yn yr ysgol ac 1 diwrnod prosiect pontio gydag ysgolion eraill yn y Dolydd yn Llanfyllin. Gyda blwyddyn 6 yn yr ysgol uwchradd, daeth blwyddyn 2 i brofi diwrnod fel blwyddyn 3 yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2.

Ychydig wythnosau yn ôl, roeddem yn lwcus iawn i gael gwahoddiad i ffarm Sarah a Steve **Banhadla**. Cawsom daith o amgylch y ffarm gan weld y lloi bach; y gwartheg; y bwydo; gardd lysiau ac i orffen cafodd y disgyblion gyfle i weld y gwartheg yn cael eu godro cyn cael blasu llaeth a chaws. Diolch yn fawr i deulu Suckley-Jones am adael i ni ddod i ymweld â'r ffarm. Diolch yn fawr hefyd i Tanat Valley am ddarparu eu bws newydd i ni am ddim.

Ar Ddydd Iau olaf y tymor, cawsom ymweliad gan Darren Mayor a Huw Ellis o dîm **Impact**. Cafodd y disgyblion wahoddiad i ddod ar y bws i ddysgu am y cysylltiad rhwng gwyddoniaeth a chread y byd.

Mae'r **Cyfnod Sylfaen** wedi mabwysiadu dolffin a chrwban y môr gyda'r arian a gasglwyd yn eu bore coffi. Mae nhw wedi penderfynu rhoddi ychydig o'r arian i ymgyrch Sara Dulson 'The Ocean Cleanup'. Syniad gwych! Mae eu menter Dydd Gwener Dim Plastig wedi bod yn lwyddiant hefyd. Mae nhw wedi cynhyrchu graffiau i ddangos fod staff a disgyblion yn taflu llawer llai o wastraff plastig o'u bocsys bwyd.

Mae dosbarth Mrs Turner a Mr Richards wedi gorffen eu **prosiect fila Rufeinig**. Defnyddiodd y disgyblion sgiliau mathemateg i ddylunio fila a defnyddiodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 Minecraft i ddod a'u dyluniadau yn fyw. Defnyddion eu sgiliau iaith i greu poster perswâd i hysbysebu eu fila.

Ar Ddydd Gwener 2il o Orffennaf, aeth pawb yng nghyfnod allweddol 2 i Ysgol Uwchradd Llanfyllin i gymryd rhan mewn amrywiaeth o **chwaraeon**, a gafodd ei drefnu gan ddisgyblion blwyddyn 10 fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Cafodd pawb ddiwrnod gwych gydag ysgolion eraill y clwstwr.

Ar Ddydd Mawrth olaf y tymor, aeth 31 disgybl cyfnod allweddol 2 i **chwaraeon ardal** yn yr ysgol uwchradd. Cafwyd cynrychioliad gwych gan ein disgyblion yn y sprint fflat, rasyd gyfnewid a'r 800m.

Mae mis Gorffennaf wedi dod a newyddion cyffrous am ein **cyn-ddisgyblion**. Llongyfarchiadau i James Burgess sydd wedi ei benodi'n brif fachgen. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Lanrhaeadr wrth i James gymryd drosodd gan Iolo Jones. Da iawn hefyd i Freya Roberts a Cadi Davies am siarad yn wych ar S4C yn ddiweddar am Bobby y ci. Mae yna hefyd newyddion chwaraeon cyffrous. Llongyfarchiadau i Garmon Evans sydd wedi ennill cystadleuaeth 'road to Wimbledon' Gogledd Cymru ac mae yn ennill cyfle i chwarae tennis yn Llundain. Da iawn hefyd i Tom Williams a David Vaughan a oedd yn rhan o'r fim athletau bechgyn dan 16 a ddaeth yn 5ed yn eu cystadleuaeth genedlaethol. Da iawn hefyd i Abbie Jones a ddaeth yn 7fed gyda'r shot put blwyddyn 9 yn ffeinal athletau Cymru yng Nghaerdydd.

Bu **blwyddyn 6** yn brysur iawn yn paratoi gwasanaeth arbennig ar gyfer ein gwasanaeth ddiwedd tymor ar y Dydd Iau olaf. Mae'n anodd credu fod rhan fwyaf o'r grŵp hwn wedi dechrau yma yn Llanrhaeadr yr un pryd a mi, wyth mlynedd yn ôl! Mae wedi bod yn brofiad arbennig eu gwyllo yn datblygu yn ddisgyblion arbennig. Llongyfarchiadau i'r disgyblion a enillodd y gwobrau, sydd wedi cael eu rhoddi i'r ysgol; Evan (Rhagoriaeth Chwaraeon), Dewi (Diwylliant), William a Henry (Cymraeg Ail Iaith) ac Ifan (Ymrwymiad Cyffredinol). Dymunaf bob lwc i Awel, Evan, Dewi, Nia, Will, Henry, William, Evie, Amelia, Rebecca ac Ifan yn yr ysgol uwchradd. Edrychaf ymlaen at glywed am eu hanesion yn y dyfodol. Diolch i'r rhieni sydd wedi dod at ddiwedd eu hamser gyda ni fel rhieni yn yr ysgol. Mae eich cymorth a'ch cefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Diolch yn fawr iawn i'r **CRhA** unwaith eto am eu cymorth a'u hymdrechion codi arian drwy'r flwyddyn. Mae casgliad elusen bagiau'r Ddraig wedi codi swm arbennig o £483, diolch am eich bagiau dillad! Mae'r CRhA wedi codi dros £6500 dros y 12 mis diwethaf! Rydym wedi archebu iPad newydd ar gyfer pob dosbarth, setiau tennis newydd, dwy fainc sydd wedi eu gwneud allan o blastig wedi ei ailgylchu a llwyfan ar gyfer neuadd yr ysgol. Mae rhain yn eitemau defnyddiol dros ben ac rydym yn ddiolchgar iawn.

Dydy'r swm uchod ddim myn cynnwys unrhyw arian a wnaed yn ein **noson o ddathlu** ar ddiwedd y tymor. Cyn cynnal noson gemau yn y neuadd, cawsom fwyd bendigedig gan y CRhA ac roedd yn wych i weld gymaint o deuluoedd a ffrindiau yma. Diolch yn fawr iawn i'r cadeirydd, Nerys Davies am drefnu'r bwyd a diolch i bawb a helpodd gyda pharatoi a gweini ar y noson. Roedd y gemau yn llwyddiant mawr, diolch i chi am gymryd rhan. Roedd yn ffordd wych i orffen y flwyddyn.

Y prif reswm am gynnal y noson oedd dweud hwyl fawr a diolch i **Mrs Nerys Roberts-Law**, sydd yn gadael yr ysgol i ddechrau swydd newydd yn Ffrainc ar ôl dwy flynedd yma yn Llanrhaeadr. Hoffwn ddiolch Mrs Roberts-Law am ei gwaith caled. Mae ei positifrwydd, ei ymrwymiad a'i brwdfrydedd wedi bod yn arbennig a bydd colled fawr ar ei hôl. Yn ogystal â nifer o rolau eraill, mae Mrs Roberts-Law wedi bod yn Gydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol am flwyddyn, a mae hi wedi bod yn arbennig. Mae'r ymyriadau mae hi wedi eu rhoi mewn lle a'r cymorth mae hi wedi trefnu ar gyfer rhieni yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Bydd Miss Watkins yn cymryd drosodd y rôl ym mis Medi a pharhau gyda'r gwaith gwych a ddechreuwyd gan Mrs Roberts-Law.

I orffen hoffwn ddiolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eich cefnogaeth dros y 11 mis diwethaf, yn enwedig dros y 8 mis rydw i wedi bod mewn gofal. Mae eich negeseuon caredig dros yr wythnosau diwethaf yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn a rydwyf wir wedi mwynhau'r rôl. Mae'n rhan o ymdrech fîm gan yr ysgol gyfan a hoffwn ddiolch i'r llywodraethwyr a phob aelod o staff am eu gwaith caled a'u cefnogaeth, heb ddim nhw bydd wedi bod yn llawer mwy heriol.

Gobeithio y cewch chi wyliau Haf gwych. Mwynhewch ac fe welwn ni chi yn ôl yn yr ysgol ar **Ddydd Mawrth 3ydd o Fedi 2019**.

Cofion,



Mr Jonathan Richards

<b>2/9/19</b>	Diwrnod dim disgyblion	Hysbysiadau
<b>3/9/19</b>	Nôl i'r ysgol	<b>PARCIO ANABL</b> – Os gwelwch yn dda a wnewch chi wneud yn siwr fod y 2 man parcio anabl yn cael eu gadael ar gyfer disgyblion sydd angen mynediad anabl. Mae'r manau wedi cael eu nodi'n glir gyda arwyddion anabl.
<b>8/9/19</b>	Gorsaf ddŵr Hanner Marathon Llyn Efyrrwy.	
<b>10/9/19</b>	Cyfarfod CRhA 7y.h.	
<b>11/7/19</b>	Beicio blwyddyn 6	
<b>16/9/19</b>	Blwyddyn 6 Lifeline @ Croesoswallt	<b>Gwirwch eich ParentPay am unrhyw ddyledion. Mae Cyngor Sir Powys wedi cysylltu â'r ysgol i atgoffa rhieni am ddyledion. Diolch.</b>
<b>18/9/19</b>	COBRA Rygbi Tag @ Meifod	
<b>25/9/19</b>	Trip Caerdydd Bl 5 a 6.	Cysylltwch â ni ar 01691 780352 neu office@llanrhaeadr.powys.sch.uk